



COFNODION CYFARFOD BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU
7 Rhagfyr 2017

Eitem 1: Croeso – Cadeirydd

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac amlygu'r newidiadau i'r Bwrdd: mae Catherine Fookes a Justin Scale wedi ymddiswyddo.
2. Dylai holl aelodau eraill y Bwrdd fod wedi derbyn llythyrau yn cadarnhau eu bod yn cael eu hailbenodi.

Eitem 2: Cofnodion a Chofnod Gweithredu'r Cyfarfod ar 19 Medi 2017

3. Cafodd y cofnodion eu nodi a'u derbyn yn gofnod cywir.
4. Aeth aelodau trwy'r Cofnod Pwyntiau Gweithredu a rhoi diweddariad ar gynnydd pob cam gweithredu gyda statws coch neu ambr.

Eitem 3: Dangosfwrdd Cyflwyno

5. Amlygodd DM bwyntiau allweddol o'r Dangosfwrdd Cyflwyno a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni targedau.
6. Cyflawnwyd gwerth sector o £6.9 biliwn yn 2016 (cyhoeddwyd ym mis Medi 2017).
7. Llwyddwyd i gofnodi a chyflawni gwerthiannau o £7 miliwn ar gyfer BlasCymru. Mae paratodau ar y gweill ar gyfer BlasCymru 2019. Cytunwyd y bydd DL ac NB yn cynrychioli Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (BDBDC) a Grŵp Llywio BlasCymru
8. Nododd EJ fod Twitter a'r cylchlythyr gyda'i gilydd yn cyrraedd dros 9,000

Eitem 4: Cynllun Strategol BDBDC 2018

9. Nododd SP fod Cynllun Strategol BDBDC 2018 wedi cael ei gynnwys yn y pecynnau cynhadledd Sgiliau.
10. Amlygodd AR bwysigrwydd sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu codi mewn gweithgarwch ffrwd waith
11. Dylai'r ddogfen weithio ategol gynnwys statws cynnydd ar amcanion/mecanweithiau cyflwyno. Bydd y Dangosfwrdd Cyflwyno yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu cynllun strategol BDBDC ac yn defnyddio hwn i adrodd am gynnydd
12. AR/SP i ddrafftio Adroddiad Blynyddol drafft BDBDC 2017

Eitem 5: Diweddariad a gweithdy Gweledigaeth 2025

13. Mae BDBDC yn ystyried gweledigaeth y diwydiant y tu hwnt i 2020
14. Nododd DLT y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar ddata gwaelodlin ar gyfer y sector i gefnogi modelu senarios



15. Cytunodd aelodau'r Bwrdd mai gweithdy i gwmpasu uchelgais y diwydiant a chyfeirio gofynion data yn y dyfodol oedd y ffordd ymlaen
16. SP i drefnu gweithdy Gweledigaeth 2025 cyn diwedd mis Chwefror 2018

Eitem 6: Diweddariad ar Brexit – Addas ar gyfer y Farchnad/Addas ar gyfer Allforio

17. Nododd DM fod yr Is-adran Bwyd yn bwrw ymlaen â nifer o brosiectau o dan y pennawd rhaglen "Addas ar gyfer y Farchnad" a fydd yn helpu cwmnïau bwyd a diod i gynllunio ar gyfer Brexit/manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol
18. Mae cerdyn sgorio barod ar gyfer Brexit wrthi'n cael ei ddatblygu i helpu cwmnïau i asesu eu parodrwydd ar gyfer Brexit a chynllunio ar gyfer y dyfodol
19. Nododd AR ei fod wedi mynychu'r cyfarfod parodrwydd ar gyfer y sector
20. Rhoddodd AR y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am ddogfen strategaeth Amaeth Cymru Brexit BDBDC ar y cyd

Eitem 7: Strategaeth y Diwydiant Diodydd

21. Fe wnaeth NB grynhoi adborth o'r cyfarfodydd clwstwr Diodydd
22. Mae adborth gan y rheiny a fynychodd y cyfarfodydd clwstwr Diodydd wedi'u trefnu yn 4 ffrwd waith
23. Fe wnaeth NB grynhoi cyfarfod y cynhyrchwyr Gwin, a chydabu cynhyrchwyr bod angen iddynt weithio gyda'i gilydd ar faterion allweddol
24. Nododd DM fod Cyswllt Ffermio bellach wedi cytuno i weithio gyda chynhyrchwyr gwin a fydd yn helpu gwella'r arfer o drosglwyddo gwybodaeth
25. Drafftiodd NB strategaeth win a nododd fod angen dod â'r cynhyrchwyr gwin at ei gilydd
26. Dywedodd NB y bydd gweithdy ar gyfer cynhyrchwyr gwin ar ddechrau 2018
27. Amlygodd BG ystod/amrywiaeth y sector bragu yng Nghymru
28. Nododd DM fod Partneriaeth Sgiliau Diwydiant yn bodoli ar gyfer y diwydiant bragu
29. Bydd diweddariad ar y Clwstwr Diodydd yn cael ei gynnwys ar agenda mis Mawrth
30. Bydd NB a BG yn adrodd yn ôl ar gyfleoedd, bygythiadau a strategaeth ar gyfer pob is-sector

Eitem 8: Cyfathrebu ac Ymgysylltu

31. Mae'r gynhadledd sgiliau nesaf wedi'i threfnu ar gyfer 8 Chwefror 2018
32. Nododd EJ fod cofnodion y Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar wefan Bwyd a Diod Cymru.



33. Mae sianelau cyfryngau cymdeithasol Bwyd a Diod Cymru hefyd yn dangos cynnwys BDBDC
34. Bydd BDBDC yn cynnal 3 digwyddiad ymgysylltu gyda'r dwydiant
35. Rhannodd EJ wybodaeth am y gweithgareddau arfaethedig oddeutu Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys digwyddiadau yn Llundain ac mewn prif swyddfeydd manwerthu.

Eitem 9: Ffrwd waith Pobl a Sgiliau

36. Nododd JF fod y gynhadledd ym mis Hydref yn llwyddiannus
37. Cyflwynodd JF gynllun sgiliau drafft y Sector Bwyd a Diod yng Nghymru a chrynoi'r 4 thema allweddol, sef:
 - Mynd i'r afael â'r prinder sgiliau sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant
 - Cynyddu'r nifer sy'n dilyn prentisiaethau yng Nghymru trwy brentisiaethau addas at eu diben sydd wedi'u cynllunio gan ddiwydiant, yn cael eu hariannu'n briodol ac yn cael eu cyfleu yn dda
 - Gwella'r canfyddiad a'r ddealltwriaeth fod y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn cynnig dewis cyffrous o ran gyrfa
 - Mynd i'r afael â heriau marchnad lafur sy'n tynhau trwy arloesedd
38. Cytunodd pawb ei bod yn briodol fod y strategaeth sgiliau ddrafft yn canolbwyntio ar gynhyrchiant
39. Dywedodd DM ei fod wedi mynychu cyflwyniad diweddar a amlygodd waith sy'n helpu gweithwyr mudol i gael statws preswyllo.
40. Amlygodd SP gyfarfod gyda'r adran Addysg yn gweithio gyda disgyblion sydd wedi eu gwahardd o addysg prif ffrwd a holodd p'un a ellid gwneud mwy yma
41. Cytunodd pawb y dylid gwahodd cyfraniadau gan y diwydiant ynglŷn â themâu ac amcanion allweddol y cynlluniau sgiliau drafft cyn y gynhadledd nesaf

Eitem 10: Sgiliau Bwyd Cymru

42. Siaradodd Kevin Thomas o Lantra Cymru am y cynllun amlinellol ar gyfer Sgiliau Bwyd Cymru
43. Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gyrsiau a fydd yn helpu gwella cynhyrchiant
44. Bydd Sgiliau Bwyd Cymru yn fecanwaith cyflwyno ar gyfer y strategaeth sgiliau
45. Trafododd pawb fod angen cysylltedd rhwng Sgiliau Bwyd Cymru a'r Bwrdd ac y dylai JF ymuno â grŵp llywio Sgiliau Bwyd Cymru

Eitem 11: Ffrwd waith Cwsmeriaid a Marchnadoedd

46. Cyflwynodd ALW y cynllun Cwsmeriaid a Marchnadoedd i aelodau
47. Amlygodd ALW "Project Galvanise" fel digwyddiad allweddol a noddur gan y Bwrdd, sydd wedi'i anelu at werthu yn Llundain.
48. Nododd AM y bydd cenhadaeth arloesedd o Gymru i MIT yn 2018



49. Rhoddodd AR ganmoliaeth i ALW am y gwaith roedd hi wedi'i wneud ar y strategaeth; amlygodd AR fod angen troi'r strategaeth yn gynllun gwaith ac wedyn sut i adrodd arno. Nodwyd mai'r Dangosfwrdd Cyflwyno oedd y prif fecanwaith

Eitem 12 - Ffrwd Waith Busnes a Buddsoddi

50. Gohiriwyd trafodaethau tan y cyfarfod ym mis Mawrth 2018

Eitem 13 – Strategaeth Ddiwydiannol y DU

51. Rhannodd DLT nodiadau ar Strategaeth Ddiwydiannol y DU cyn y cyfarfod

52. Nododd DLT y Cyngor Sector Bwyd a Diod arfaethedig yn y DU, a thrafododd bawb ymgysylltu yn y dyfodol rhwng BDBDC a Chyngor Sector Bwyd a Diod arfaethedig y DU

Eitem 14: Unrhyw Fater Arall

53. Nododd DL swyddfeydd tramor ychwanegol Llywodraeth Cymru a fydd yn cael eu hagor a holodd sut gallai'r Bwrdd gefnogi mentrau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor

54. Cytunodd pawb y dylid gwahodd Pennaeth Busnes Rhyngwladol yr Is-adran Bwyd i'r cyfarfod nesaf i drafod Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor ac allforion a sut gall BDBDC gyfrannu/cefnogi mentrau/rhaglenni



ATODIAD 1

YN BRESENNOL

Andy Richardson (AR)
David Lloyd (DL)
Alison Lea-Wilson (ALW)
Buster Grant (BG)
Norma Barry (NB)

Dros y ffôn ar gyfer Eitem 9

Justine Fosh (JF)

Swyddogion

David Morris (DM)
David Lloyd-Thomas (DLT)
Suzanne Pomeroy (SP)
Andrew Martin (AM)
Enfys Jones (EJ)

Ysgrifenyddiaeth

Linda Grant

YMDDIHEURIADAU

Keith Smyton (KS)
Huw Thomas (HT)
James Wilson (JW)
Katie Palmer (KP)
Marcus Sherreard (MS)
Annitta Engel (AE)